Seindorf **Beaumaris** Band

Haf 2017






## Mwynhau yn Norwy

Mae ein cerddorion ifainc yn cael llawer o'n sylw ac rydan ni'n ymfalchio yn eu datblygiad.

Ond, yn gynharach eleni, ein chwaraewyr aeddfetach oedd ein llysgenhadon rhyngwladol!

Ffurfiwyd band Last of the Summer Wind Band (LSW) yn 2008 pan ddychwelodd Gwyn Evans, cyfarwyddwr cerdd Seindorf Beaumaris, o gyfnod yn gweithio gyda band yn Norwy.

Yno, cafodd ei ysbrydoli gan y modd yr oedd bandiau yn Norwy yn cynnwys teuluoedd cyfan a'r gymuned ehangach.

Nôl ym Miwmaris, dim ond naw o chwaraewyr ddaeth i'r ymarfer cyntaf, dan ofal Fred Evans.

Ond, erbyn hyn, mae 40 aelod– rhai yn chwaraewyr sy'n ail afael ar eu hofferynnau ar ôl blynyddoedd o wneud pethau eraill, eraill yn dysgu o'r dechrau.

Ac wrth i'r band dyfu – mewn niferoedd ac mewn hyder – cawsant eu gwadd i chwarae mewn cyngherddau a chystadlaethau.

Yn gynharach eleni, mwynhaodd criw LSW eu trip tramor cyntaf, i gystadlu ym mhencampwriaeth Gubbiaden dan ofal Stavanger Kommunes Korps – y band ysbrydolodd Gwyn a Fred flynyddoedd yn ôl!

Ac, i goroni'r cyfan, fe wnaethon nhw ddychwelyd adre efo'r wobr am y band mwyaf adloniannol!

"Ffurfio ac arwain LSW ydy un o uchafbwyntiau fy 70 mlynedd ym myd bandiau pres" meddai Fred.

"Roedd hi'n bleser pur mynd â'r band i'r ddinas lle planwyd yr hedyn ar gyfer yr antur!"

**Cyngerdd Haf Seindorf Beaumaris**

**Dydd Sadwrn 15 Gorffennaf 2017**
**7.30pm**

**Tocynnau ar werth yng Nghanolfan Beaumaris.**

**I archebu ffoniwch 01248 811200**



**Dyma'r band canolradd, dan arweinyddiaeth Bethan Evans, yn ymarfer at eu cyngerdd.**

## Gair gan ein Cadeirydd

Mae'r haul yn tywynnu wrth imi ysgrifennu'r pwt yma – ac mae ein meddyliau yn troi tuag at ein chwaraewyr ifaic yn nhymor eu haroliadau. Rydan ni'n dymuno'n dda iddyn nhw.

Bu iddynt gael llwyddiant eithriadol mewn arholiadau cerddoriaeth diweddar gyda 100% wedi pasio, gyda nifer hefyd yn perfformio'n wych yng ngystadleuaeth unadwyr gogledd Cymru fis Chwefror.

Bydd y band ieuenctid yn chwarae yng ngwyl 'Music for Youth' Birmingham ar 7 Gorffennaf. Mae'r band canolradd yn chwarae yn Neuadd y Dre Beaumaris, 16 Mehefin a byddwn yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn fis Awst.

Bu i'r "criw fymryn yn hŷn", Last of the Summer Wind (LSW), ar daith ardderchog i Norwy fis Ebrill i gystadlu yn Gubbiden. Fe enillon nhw y wobr am y band mwya adlonianol – allai'r beirniad ddim stopio chwerthin yn ôl bob sôn!!

Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y band yn cael ei gynnal yn y bandroom ar 17 Gorffennaf am 7.00pm**,** ac edrychaf mlaen at eich gweld yn y cyngerdd haf.

**Dr Patsy Thomas**

***Ein dechreuwyr.*** Rhaid inni gofio lle mae'r llwyddiant yn dechrau. Bydd 45 cerddor ein band ieuengaf yn agor y cyngerdd haf, dan ofal Fred Evans. Yn blant rhwng pedair ac 11 oed, byddant yn perfformio caneuon adnabyddus i ni eu mwynhau.

**….**

## Yr Eisteddfod ar garreg y drws!

Rydan ni'n edrych mlaen yn fawr at yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn ddechrau Awst.

Bydd y Band Ieuenctid yn cystadlu yn Ardan 4 a'r Band Hŷn yn cystadlu yn Adran 3.

Bydd y ddwy gystadleuaeth ar benwythnos cyntaf yr Eisteddfod, dydd Sadwrn 5 Awst – edrychwn mlaen at gael eich cefnogaeth!

Byddwn hefyd yn chwarae yn y Gymanfa Ganu ym Mhafiliwn yr Eisteddfod nos Sul 6ed o Awst – bydd y Gymanfa ar S4C os na fedrwch fod yno!

**Gyfeillion – d'wedwch wrth eraill!**

Rydan ni bob amser yn awyddus i groesawu cyfeillion newydd i ymuno â ni a chefnogi'r band. Mae eich cyfraniad yn rhoi cefnogaeth allweddol i'n cerddorion – gan ein helpu i brynu offerynnau, dillad a phethau hanfodol eraill ar gyfer gweithgareddau'r bandiau. **Mae nifer o'r Cyfeillion bellach yn derbyn y Cylchlythyr drwy ebost gan arbed costau postio. Os medrwch chi wneud hynny gadewch inni wybod drwy ebostio** friendsofbeaumarisband@gmail.com**.**